










# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2022-2023

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

# CYFLWYNIAD



Croeso i fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-2023, sy'n cwmpasu'r cyfnod mis Ebrill 2022 tan mis Mawrth 2023. Dyma fy ail adroddiad blynyddol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) ers cael fy ethol ym mis Mai 2021.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn heriol arall, nid yn unig i Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ond i'r holl wasanaeth heddlu yn y DU. Yn anffodus, rydym wedi gweld swyddogion heddlu yn rhy aml yn camddefnyddio eu swydd gyfrifol. Mae llawer o'r enghreifftiau rydym wedi'u gweld ynghylch y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan yn Llundain. Er enghraifft, gwnaeth achos erchyll y cyn gwnstabl heddlu David Carrick godi cwestiynau i ni gyd. Fel y dywedais ar y pryd, byddai'n naïf i unrhyw un gredu mai ond yn y Met mae'r problemau hyn.

Mae'r adolygiad gan y Farwnes Casey a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn codi cwestiynau arwyddocaol i ni gyd, er ei fod eto'n canolbwyntio ar y Met. Fel CHTh Gogledd Cymru, rwyf yn benderfynol o wneud popeth a allaf er mwyn sicrhau fod ein cymunedau'n derbyn y gwasanaeth heddlu gorau posibl. Byddaf yn parhau i gydweithredu gyda'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau fod y swyddogion a staff hynny sydd ddim yn cynnal y safonau uchaf yn cael eu gyrru allan o'r sefydliad mor gyflym â phosibl. Mae'n eglur i mi fod gennym lawer i'w wneud er mwyn adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona, sydd mor hanfodol yn ein model o blismona drwy ganiatâd.

Tra rydym wedi gweld plismona ar ei waethaf un, gwelodd y deuddeg mis diwethaf y gorau o blismona ym Mhrydain hefyd.

Yn dilyn cyhoeddi marwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines a'r cyfnod o alaru a'r angladd, gwelwyd un o'r ymgyrchoedd plismona mwyaf erioed yn y DU. Rwyf yn falch o'r rôl a chwaraewyd gan Heddlu Gogledd Cymru.

Yn Llundain, yr Alban ac mewn mannau eraill, cynorthwyodd yr Heddlu gyda swyddogion gwarchodaeth arfog, gosgorddion ar feiciau modur, swyddogion chwilio patrolau trefn gyhoeddus a thrwy gymryd rhan yn yr orymdaith angladdol. Gweithiodd swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn hael i wneud eu dyletswydd a gwneud eu cymuned a'u gwlad ymfalchïo. Cafodd eu cyfraniad ei gydnabod a'i sylwi gan EF y Brenin ac EUB Tywysog Cymru.

Ar ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn, roeddwn eisiau mynegi fy niolch cywiraf unwaith eto i holl swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Rwyf hefyd yn dymuno estyn fy niolch i gymunedau Gogledd Cymru am eu hymgysylltiad a'u cymorth parhaus.

**Andrew Dunbobbin**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

# Y GALW AR HEDDLU GOGLEDD CYMRU

1 EBRILL 2022 TAN 31 MAWRTH 2023



**GALWADAU 999**

**106,849**



**GALWADAU 101**

**235,646**



**CYSWLLT DIGIDOL**

**67,761***



**YMATEB I DDIGWYDDIADAU**

**66,902**



**ARESTIADAU**

**17,616**

* (negeseuon e-bost, ffurflenni, sgyrsiau, negeseuon uniongyrchol ar y cyfryngau cymdeithasol os mesurir)
Sgyrsiau we - 20,226 / Negeseuon e-bost - 47,535

# AMCANION Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD

## FY MLAENORIAETHAU

### CYFLWYNO CYMDOGAETHAU DIOGELACH

- Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
- Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

### CEFNOGI DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

- Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Diogelu pobl fregus gan gynnwys plant
- Ymdrin ac atal troseddau seiber
- Sefydlu panel dioddefwyr
- Atal a mynd i'r afael a Throsedd Casineb

### SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL EFFEITHIOL A THEG

- Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

## BLWYDDYN SCHTh MEWN RHIFAU

206 o swyddogion ychwanegol wedi'u recriwtio yn y 12 mis diwethaf.

Targed o 138 swyddog newydd i'w recriwtio yn y 12 mis nesaf.

£70,000 wedi'i ddyrannu drwy fy Nghronfa Arloesi i Dyfu newydd

Dyfarnwyd dros £1.1m gan y Swyddfa Gartref ar gyfer prosiectau Strydoedd Diogelach ledled Gogledd Cymru

Wedi sicrhau £240,000 gan y Swyddfa Gartref ar gyfer cyflwyno Rhaglen Troseddwyr Trais Domestig

Wedi sicrhau £288,000 ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo llochesi

Wedi dyrannu £120,000 i gymunedau o'r gronfa Enillion Trosedd.

Lansio gwefan newydd a chyfartaledd o 2,500 o ymwelwyr bob mis

600 o danysgrifwyr i gylchlythyr newydd bob pythefnos SCHTh

Gwelodd yr arolwg cyhoeddus ar yr arolwg praesept arfaethedig gynnydd o 341% mewn pobl yn cyfrannu

Dros 4,000 o ymwelwyr i stondin SCHTh yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych

# CRONFA STRYDOEDD DIOGELACH



## CAERGYBI

- Gwella golau stryd yn ac o amgylch Canol Tref Caergybi
- Gosod 21 o gamerâu CCC ychwanegol er mwyn adnabod ardaloedd gan y cyngor tref
- Darparu 'tacsis diogel'
- Darparu Llochesi Ieuenctid a gwaith allgymorth
- Creu hafanau diogel
- Gwella diogelwch

**£692,148**

## SIR Y FFLINT

- Camerâu y gellir eu hail-leoli
- Gwelliannau Amgylcheddol: Golau Stryd a thirlunio
- Pecynnau gwella diogelwch ac atal trosedd
- Hyfforddiant i 20 o staff aml-asiantaeth
- System Rybudd Cymdogaethau

**£301,125**

## WRECSAM

- 5 o brosiectau ymyrraeth ymddygiad gwrthgymdeithasol ieuenctid
- Pecyn addysgol trais yn erbyn merched a genethod
- Hyb mannau diogel Hafan y Dref
- Marsialiaid Stryd
- Beiciau trydan
- Gwella diogelwch

**£268,157**

# TROSEDD COFNODEDIG YNG NGOGLEDD CYMRU

O fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2023 o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol

## Trosedd i lawr ar y cyfan 5.9%

(i lawr o 67,617 i 63,652)

**Trais yn erbyn merched a genethod i lawr**
(i lawr o 16,904 i 15,123)
**10.5%**

**Trosedd Casineb i lawr**
(i lawr o 1,464 i 1,275)
**12.9%**

**Treisio i lawr**
(i lawr o 798 i 733)
**8.1%**

**Trais gydag anaf i lawr**
(i lawr o 7,280 i 7,255)
**0.3%**

**Trais heb anaf i lawr**
(i lawr o 11,844 i 11,317)
**4.4%**

**Stelcian ac aflonyddu i lawr**
(i lawr o 13,341 i 11,477)
**14%**

**Byrgleriaethau (Anheddau) i lawr**
(i lawr o 1,460 i 1,335)
**8.6%**

**Difrod troseddol i lawr**
(i lawr o 7,479 i 7,014)
**6.2%**

# **BOD YN LLAIS** Y CYHOEDD AR **FATERION PLISMONA**

Lansio strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu newydd SCHTh. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at gynnydd mewn sylw yn y wasg, cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygu brand SCHTh ymhellach. Mae ein sylw yn y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol wedi cynyddu o oddeutu 30 erthygl ac ysgrifau nodwedd y mis i 50.

Lansiwyd gwefan newydd SCHTh. Mae'r wefan yn cynnwys mwy o ffwythiant a hygyrchedd i gynulleidfaoedd. Hyd at fis Ebrill 2023, rydym yn gweld cyfartaledd o 2,500 o ymwelwyr i'n gwefan bob mis a 400 o lawrlwythiadau unigryw o'n cynnwys, fel cofnodion ein cyfarfod ac adroddiadau.

Lansiwyd Cylchlythyr dwyieithog newydd SCHTh, sy'n cael ei ddosbarthu i dros 600 o danysgrifwyr

Gwnaethom ymweld â Phrimin Môn yng Ngwalchmai ar 9 a 10 Awst 2022, lle daeth dros fil o bobl i'n gweld ni. Gwnaethom amlygu gwaith y swyddfa, rôl y Comisiynydd a'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Gwnaethom wahodd partneriaid o'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr a thîm Troseddau Seiber Heddlu Gogledd Cymru er mwyn rhannu ein stondin a chwrdd â sefydliadau eraill fel Tir Dewi, NFU Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Gwelodd y bleidlais ar-lein am wobrau Eich Cymuned, Eich Dewis gynnydd o 66% mewn cyfranogiad o'i gymharu â llynedd, gyda chyfranogiad yn y Gymraeg yn cynyddu 803%.

Gwnaethom ddechrau cymhorthfa gymunedol fisol mewn lleoliadau ledled Gogledd Cymru lle gall aelodau o'r cyhoedd archebu slot er mwyn trafod materion plismona gyda'r CHTh.

Ddechrau 2023, gwnaethom lansio strategaeth gyfathrebu cefn gwlad er mwyn sicrhau fod ardaloedd a chymunedau cefn gwlad Gogledd Cymru yn cael gwybod am weithgarwch SCHTh a phlismona yn eu hardaloedd. Mae'n dangos ymroddiad y CHTh a HGC i drechu trosedd a chynorthwyo dioddefwyr mewn rhannau gwledig o'r rhanbarth.

Roeddem yn amlwg iawn yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych rhwng 30 Mai a 4 Mehefin 2022. Cawsom dros 4,000 o ymwelwyr a gwnaethom siarad gyda'r cyhoedd am SCHTh, y Comisiynydd a'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Gwnaethom hefyd gynnal Get Safe Online, Youth Shedz a Dinbych yn Blodeuo ar y stondin.

Digwyddiad hynod a drefnwyd gan y tîm yn ystod y cyfnod oedd Pawb yn Un. Cynhadledd cyntaf o'i fath a gynhaliwyd yng gynhadledd y cyntaf o'i bath yng Nghyffordd Llandudno ar 23 Tachwedd 2022 yn edrych ar sut y gall asiantaethau a sefydliadau gwahanol, o'r heddlu i wasanaethau iechyd a chymdeithasol, ddod at ei gilydd er mwyn ymdrin ag achosion o drais domestig a chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru. Denwyd dros 100 o gynrychiolwyr i'r digwyddiad. Roeddent yn cynnwys y gwasanaethau cyhoeddus a brys, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru.

Ar 7 Medi 2022, aeth staff SCHTh i Ffair y Glas yng Ngholeg Menai a Choleg Llandrillo. Dyma'r tro cyntaf i'r swyddfa fynd i'r digwyddiadau hyn er mwyn sgwrsio gyda'r bobl ifanc yn y colegau hyn. Gwnaethom siarad â thros 100 o fyfyrwyr. Ymwelodd sawl darlithydd ar draws y cyrsiau gwasanaethau cyhoeddus a phlismona â'r stondin gan fynegi diddordeb yn y CHTh yn siarad â myfyrwyr. Cynhaliwyd seminarau wedyn gyda myfyrwyr yn y ddau goleg.

Gwelodd arolwg ar y praesept arfaethedig gynnydd o 341% mewn pobl yn cyfrannu dros yr arolwg diwethaf.

Fel rhan o'n hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, gwnaethom fynychu Balchder Gogledd Cymru ar 25 Mehefin 2022. Roedd SCHTh yn noddi'r digwyddiad ac roedd ganddi stondin ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru.

# ATEBOLRWYDD A DYLETSWYDDAU STATUDOL

Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol

Cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Gogledd Cymru

Cyfarfodydd o'r Panel Heddlu a Throsedd

**Ceir manylion pellach ar wefan SCHTh.**

Cydbwyllgor Archwilio

Adolygiadau Achosion Cwynion

Arolygon HMICFRS ac archwilwyr mewnol yn rhoi adolygiadau annibynnol.












# AMCANION Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD

## CYFLAWNI CYMDOGAETHAU DIOGELACH

- Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt.
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion heddlu a staff yr heddlu.
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Comisiynu adolygiad plismona annibynnol cyntaf y Ddeddf Hela yng Nghymru. Arweiniodd yr adolygiad at sawl argymhelliad a chynllun gweithredu i Heddlu Gogledd Cymru rwyf yn parhau i fonitro.

Digwyddiadau ymgysylltu amrywiol gyda'n cymunedau gwledig, gan gynnwys:

o Brecwast UAC

o Noson wybodaeth yr ystafell reoli i ffermwyr

o Cyfarfod gydag UAC ac NFU er mwyn trafod trosedd mewn ardaloedd cefn gwlad.

Gan weithio gyda BRAKE, yr elusen diogelwch ffyrdd, rwyf yn ariannu swydd gweithiwr achosion er mwyn cynorthwyo unigolion a effeithiwyd gan anafiadau angheuol a thrychinebus. Bydd hwn yn wasanaeth wyneb yn wyneb cwbl ddwyieithog er mwyn darparu cymorth arbenigol. Yn ei dro, bydd yn lleihau galw sydd ar hyn o bryd ar Swyddogion Cyswllt Teuluoedd yr Uned Plismona Ffyrdd.

Cydweithredu gyda chynghorwyr lleol er mwyn gwella diogelwch ffyrdd mewn ardaloedd sy'n peri pryder ledled y rhanbarth. Er enghraifft, rwyf yn cydweithredu gyda'r cynghorydd lleol yng Nglasfryn, Conwy er mwyn lleihau'r terfyn cyflymder o 60mya i 30mya drwy'r pentref. Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ailystyried eu penderfyniad.

Mae SCHTh wedi cefnogi'r ymgyrch ynghylch stori Olivia Alkir, sef merch leol a laddwyd yn drasig mewn damwain car yn 2019. Mae mam Olivia, Jo Alkir, yn ymgyrchu er mwyn gwneud ffyrdd yn fwy diogel i bobl ifanc ac ar 28 Chwefror 2023, gwnaethom rannu Stori Olivia yn y Senedd yng Nghaerdydd fel rhan o'r perwyl hwn. Daeth y digwyddiad â deddfwyr, ymgyrchwyr a diwydiant at ei gilydd er mwyn gweld y ffilm a thrafod y prif faterion mae'n ei godi.

Cymerodd fy swyddfa a minnau ran yn wythnos weithredu EDWARD (Every day without a road death). Fe wnes i ddarparu fideo'n dangos cefnogaeth ac fe wnaethom rannu gwybodaeth diogelwch ffyrdd hyrwyddol ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Cefnogi wythnos Ymwybyddiaeth Diogelwch Ffyrdd BRAKE – rhannu holl wybodaeth diogelwch ffyrdd hyrwyddol ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Ymateb i Alwad am Dystiolaeth Llywodraeth y DU ar weithredu adsefydlu ar ôl gyrru ar gyffuriau a chynllun troseddwyr risg uchel ar gyfer gyrru ar gyffuriau.
Ceir fy ymateb yma.

# CEFNOGI DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

- Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Diogelu pobl fregus gan gynnwys plant.
- Ymdrin ac atal troseddau seiber.
- Sefydlu panel dioddefwyr.
- Atal a mynd i'r afael â Throsedd Casineb

Cynheliais adroddiad at wraidd y mater i berfformiad Heddlu ynghylch Trosedd Casineb. Codais gwestiynau ar sut mae'r Heddlu'n ymdrin â dioddefwyr Trosedd Casineb, yr her o hysbysu cynyddol (dros y 6 blynedd diwethaf) a lefelau gostyngol boddhad dioddefwyr. Mae mesurau ychwanegol yn cael eu cymryd er mwyn gwella ymateb yr Heddlu, gan gynnwys swyddog cymorth plismona lleol ychwanegol. Rwyf yn parhau i fonitro cynnydd y gwaith hwn.

Rwyf yn parhau gyda fy nghraffu drwy fyrddau strategol Heddlu Gogledd Cymru gan gynnwys y Bwrdd Ansawdd Gwasanaeth a Bwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Cymru Gyfan.

Fe wnes i gynnal digwyddiad ar-lein gan gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. Daeth dros 100 i'r digwyddiad gyda diddordeb mewn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr Trosedd Casineb. Gweler yr adroddiad ôl-ddigwyddiad yma.

Mae gwaith partneriaeth drwy'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn parhau'n sylfaenol i'r ffordd yr ymdrinnir â chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru. Mae fy Mhrif Swyddog Gweithredol yn parhau i gadeirio'r Bwrdd hwn. Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Caethwasiaeth Fodern, sy'n adrodd i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio, wedi dod yn gonglfaen gweithio mewn partneriaeth sydd wedi hen sefydlu.

Rwyf yn parhau i graffu Heddlu Gogledd Cymru ar ei gyflawniad ynghylch trosedd difrifol a threfnedig sy'n cynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Rwyf yn nodi'r ymdriniaeth arweiniol a llwyddiannus a gymerwyd er mwyn darganfod plentyn yn cario llawer iawn o gyffuriau. Yn hytrach na chyhuddo'r plentyn gyda throseddau cyffuriau, roedd yn glir i swyddogion eu bod yn ddioddefwr camfanteisio troseddol llinellau cyffuriau. Defnyddiwyd deddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern felly er mwyn cynorthwyo'r ymchwiliad, a arweiniodd at erlyn pobl a oedd yn camfanteisio ar y plentyn.

Eleni rwyf wedi cynnal craffu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda chyfranogiad gweithredol o'm Swyddfa ym Mwrdd y Gymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyfranogiad a phresenoldeb yng nghyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Hil, Grŵp LHDT a'r Grŵp Anabledd.

Bob pedair blynedd, mae gofyn i mi gyhoeddi amcanion cydraddoldeb sy'n amlinellu'r gwaith a geir ei wneud er mwyn bodloni gofynion y Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rwyf yn ysgrifennu Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru sy'n amlinellu ein blaenoriaethau cydraddoldeb mewn plismona am y pedair blynedd nesaf. Er mwyn amlinellu'r blaenoriaethau hyn, rwyf yn ymgymryd â gorchwylion paratoi, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad ynghlwm, yn manylu'r gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu a ymgymerwyd er mwyn sefydlu amcanion cydraddoldeb 2023-2027.

Bob blwyddyn, rwyf yn darparu adroddiad blynyddol ar y craffu rwyf wedi'i gynnal ar Safonau Proffesiynol o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Dyma Adroddiad Craffu Safonau Proffesiynol 2022/23. Mae strwythur fy Swyddfa ar gyfer craffu materion safonau proffesiynol wedi hen sefydlu ac yn gadarn. Er hynny, rwyf yn falch o nodi'r diwylliant dysgu a thryloywder sy'n bodoli o ran materion ymddygiad yng Ngogledd Cymru.

Rwyf wedi rhannu adroddiad y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman i faterion ymddygiad yn Heddlu Gogledd Cymru yn gyhoeddus.

Rwyf yn parhau i gefnogi'r gwaith sydd wedi'i anelu at wella profiadau plant a phobl ifanc mewn gofal. Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am ofyniad statudol i awdurdodau lleol er mwyn darparu Cyfweliadau Dychwelyd Adref – rwyf yn cefnogi hyn yn llwyr.

Rwyf yn parhau i gomisiynu Get Safe Online ddarparu gwasanaeth cymorth seiber i gymunedau Gogledd Cymru. Mae Get Safe Online yn bartneriaeth sector cyhoeddus / sector preifat nid er elw a gynorthwyir gan sefydliadau arweiniol mewn bancio, manwerthu, diogelwch rhyngrwyd a sectorau eraill. Maent gyda thystysgrif Cyber Essentials.

Mae'r Dyletswydd Trais Difrifol newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Penodedigi gydweithio ac i gynllunio i leihau ac atal trais difrifol mewn ardaloedd lleol, a chynhyrchu asesiad anghenion strategol, strategaeth ymateb, gwerthusiad effaith a mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus. Fel cynullydd arweiniol y Ddyletswydd, mae'r SCHTh wedi bod yn gweithio er mwyn sefydlu'r trefniadau staff a llywodraethu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Ddyletswydd. Mae cytundeb partneriaeth wedi'i lofnodi gan yr holl awdurdodau penodedig yn y ddyletswydd sef Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfiawnder Ieuenctid, Addysg, HMPPS a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

CARA (Rhybuddion a Cham-drin Perthynas) ydy'r strategaeth plismona cam-drin domestig gyntaf yn hanes y DU i'w threalu o dan amodau arbrofol. Nod CARA ydy symud cyfranogwyr i ffwrdd o wadu a bychanu eu gweithrediadau i dderbyn a chymryd cyfrifoldeb am y niwed maent wedi'i achosi.

# SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL EFFEITHIOL A THEG

- Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chynorthwyo i adsefydlu pobl sydd wedi troseddu.

Rwyf yn parhau i fuddsoddi mewn Gweithiwr Ieuenctid Fearless Crimestoppers ar gyfer Gogledd Cymru. Gwnaiff y gweithiwr ieuenctid baratoi, hwyluso a chyflwyno sesiynau atal trosedd ac addysg i bobl ifanc a'r bobl hynny a gyflogir er mwyn gweithio gyda phobl ifanc ledled Gogledd Cymru. Codi ymwybyddiaeth am Crimestoppers ac addysgu pobl ifanc ar ganlyniadau trosedd, gyda sylw penodol ar linellau cyffuriau, troseddau cyllyll a'r Ymdriniaeth Gwylwyr. Mae hyn er mwyn creu cysylltiadau gweithio cryf gyda phartneriaid ieuenctid, ysgolion, yr heddlu ac asiantaethau eraill.

Fe wnes i gyflawni un o fy mlaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd drwy sefydlu Panel Dioddefwyr. Roedd hyn er mwyn clywed lleisiau dioddefwyr yng Ngogledd Cymru a deall eu profiadau'n well o'r broses cyfiawnder troseddol, er mwyn ysbrydoli gwelliannau i'r gwasanaeth. Cyfarfu'r Panel am y tro cyntaf ar 31 Mawrth 2023 a bwydwyd y pwyntiau gwerthfawr gan y dioddefwyr am eu taith cyfiawnder troseddol i bartneriaid er mwyn gwella materion penodol i ddioddefwyr y dyfodol.

Rwyf hefyd wedi codi pryderon gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi er mwyn codi pryderon am y rhwystrau presennol sydd mewn lle sy'n atal swyddog arweiniol cyfiawnder adferol Heddlu Gogledd Cymru rhag cysylltu ac ymgysylltu â charcharorion.

Fe wnes i lofnodi addewid Cyfiawnder Adferol sef Why Me? pan ges i fy ethol ac fe addewais gyflawni eu deg cais tuag at wasanaethau gwell i ddioddefwyr. Un o'r deg cais ydy sicrhau fod casglu data iawn ar gyfiawnder adferol. Mae manteision cael casgliad data iawn yn cynnwys nodi unrhyw rwystrau, meysydd i'w gwella ac mae'n arddangos arfer da. Roedd y data a gasglwyd yn flaenorol ar gyfer achosion cyfiawnder adferol yng Ngogledd Cymru ond yn cynnwys achosion lefel uchel. Arweiniodd hyn at arferion cyfiawnder adferol yn cael eu defnyddio o fewn Checkpoint, Cywiriadau Cymunedol a Chyswllt Ysgolion yn cael ei golli. Mae ffordd newydd o gofnodi wedi'i weithredu'n ddiweddar yn dilyn diweddariad TG sydd wedi caniatáu i achosion cyfiawnder adferol o fewn y Cywiriad Cymunedol gael eu cofnodi. Bydd achosion Checkpoint yn cael eu cynnwys yn fuan fel rhan o'r casglu data hwn.

Mae blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd arall wedi'i chyflawni gyda lansio strategaeth newydd sy'n anelu i gynorthwyo gydag ymdrin ag achosion troseddu ymhlith merched yng Ngogledd Cymru a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau merched, lleihau eu cysylltiad gyda'r system cyfiawnder troseddol, a thorri trosedd.

Gan ychwanegu at sylfeini Glasbrint Cyfiawnder Merched Cymru a gwaith sefydliadau a phartneriaid presennol ledled y rhanbarth, mae Grŵp Cyflawni Merched mewn Cyfiawnder wedi llunio Strategaeth Cyfiawnder Merched Gogledd Cymru. Y strategaeth ydy'r cyntaf o'i bath ar lefel leol yng Nghymru.

Rwyf yn parhau i gynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru gyda'i brosiect i recriwtio grŵp ymgynghorol pobl ifanc (Llysgenhadon Ifanc) ac ymgymryd â darparu adnoddau i gynorthwyo'r gwaith hwn yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun.

Mae fy Swyddfa hefyd wedi cynnal adolygiad o'i waith craffu, gan ystyried sut mae pobl ifanc yn cael eu heffeithio gan faterion plismona. Rydym yn y broses o ysgrifennu Strategaeth Craffu Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau y cynhelir gwaith fy Swyddfa gyda dealltwriaeth glir o effaith plismona a materion trosedd ar bobl ifanc. Gwnaiff y strategaeth fanylu sut, o fewn fy nghraffu cyffredinol, yr ymdrinnir â'r materion sy'n effeithio ar bobl ifanc.

Mae Cynllun Dargyfeirio Checkpoint Cymru, a lansiwyd yn Heddlu Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2019, wedi'i lunio er mwyn gwella gwasanaethau i'r bobl hynny mewn perygl o fynd, neu'r rhai hynny sydd wedi mynd i'r System Cyfiawnder Troseddol, gan geisio ymdrin ag achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol. Roedd llyw-wyr Checkpoint Cymru yn cynorthwyo dynion ar y cynllun o'r blaen ac fe gafodd merched gymorth canolfan merched leol. Yn dilyn adolygiad, bydd llyw-wyr Checkpoint Cymru yn cynorthwyo dynion a merched. Bydd y datblygiad newydd hwn yn caniatáu i ni ddeall anghenion merched a atgyfeirir at Checkpoint Cymru yn llawn a deall unrhyw fylchau mewn gwasanaeth a allent fod eu hangen. Drwy gydweithredu gyda phartneriaid, fe wnawn gynorthwyo'r merched wella eu canlyniadau a symud at ddyfodol mwy cadarnhaol.










# NAWDD A CHYLLID

| | Cyllideb Wreiddiol £m | Cyllideb Ddiwygiedig £m | Alldro £m | Gorwariant / (Tanwariant) £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Swyddogion a Staff | 159.504 | 161.616 | 158.117 | (3.499) |
| Eiddo | 8.349 | 8.914 | 9.750 | 0.836 |
| Trafnidiaeth | 3.553 | 3.660 | 3.279 | (0.381) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 27.106 | 27.400 | 27.493 | 0.093 |
| Cynlluniau wrth Gefn | 1.166 | - | - | - |
| Costau Dyledion a Chostau i Gyfalaf | 4.507 | 5.470 | 5.594 | 0.124 |
| Comisiynu | 3.545 | 5.866 | 5.807 | (0.059) |
| Cydweithrediadau a Phartneriaethau | - | 2.865 | 2.865 | - |
| **Gwariant gros** | **207.730** | **215.791** | **212.905** | **(2.886)** |
| Grantiau comisiynu | - | (4.082) | (4.082) | - |
| Cydweithrediadau a Phartneriaethau | - | (3.236) | (3.236) | - |
| Incwm arall | (26.685) | (27.041) | (30.445) | (3.404) |
| **Cyfanswm incwm** | **(26.685)** | **(34.359)** | **(37.763)** | **(3.404)** |
| Symudiadau arfaethedig mewn cronfeydd wrth gefn | 1.223 | 0.836 | 0.836 | - |
| **Gwariant Net** | **182.268** | **182.268** | **175.978** | **(6.290)** |
| Trosglwyddo tanwariant i gronfeydd wrth gefn | - | - | 6.290 | 6.290 |
| **Cyfanswm** | **182.268** | **182.268** | **182.268** | **-** |

| | Cyllideb Wreiddiol £m | Cyllideb Ddiwygiedig £m | Alldro £m | Amrywiant £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau Llywodraeth | (88.407) | (88.407) | (88.407) | - |
| Praesept | (93.861) | (93.861) | (93.861) | - |
| **Cyfanswm y nawdd** | **(182.268)** | **(182.268)** | **(182.268)** | **-** |

Cynlluniwyd a chyflawnwyd arbedion o £0.755m yn ystod 2022/23.

Effeithiodd costau ynni uchel ar gost rhedeg ein hadeiladau.

Roedd incwm ychwanegol yn cynnwys cymorth cilyddol o ddigwyddiadau amrywiol, incwm buddsoddi a grantiau.

Mae rhywfaint o’r tanwariant yn 2022/23 wedi’i glustnodi er mwyn ymdrin â’r risg o gopaon mewn prisiau ynni a thanwydd yn 2023/24. Mae hyn yn golygu gall y cynnydd yn y dreth gyngor fod yn is, a dal cael cyllideb fantoledig.




@NorthWalesPCC

@schthgc_nwopcc

schthgc_nwopcc

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk